PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Tony Thomas, Graham Timms (Cadeirydd) ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (GW); Swyddog yr Iaith Gymraeg (MC); Y Gweinyddwr Perfformiad a Systemau (EJ); Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Gweinyddwr Pwyllgor (HB).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn a Joe Welch.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd eitem yn ymwneud â phenodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

***PENDERFYNWYD*: bod y Cynghorydd Graham Timms yn cael ei benodi'n Gadeirydd a'r Cynghorydd Emrys Wynne yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd.**

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD:* derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.**

5 EISTEDDFOD YR URDD - DIWEDDARIAD

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (ATCRhY) adroddiad er mwyn rhoi diweddariad am y cynnydd hyd yn hyn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai Eisteddfod yr Urdd ar y rhaglen o heddiw ymlaen, i sicrhau fod yr aelodau'n cael y newyddion diweddaraf.

Byddai seremoni gyhoeddi'n cael ei chynnal i hyrwyddo'r Eisteddfod ym mis Hydref. Byddai'r digwyddiad yn dechrau yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, ac yn gorymdeithio ar hyd y Stryd Fawr ac yn parhau i Gaeau Bastion, Prestatyn. Cafodd yr aelodau wybod nad oedd yna gynllun wrth gefn, felly byddai'r digwyddiad yn ddibynnol ar y tywydd.

Roedd disgwyl y bydd tua 2,000 o bobl yn y digwyddiad ym mis Hydref. Roedd ysgolion eisoes wedi dechrau paratoi posteri a baneri ar gyfer y digwyddiad. Fe fydd Swyddogion yr Urdd wedi'u lleoli ar hyd y stryd ac yn y digwyddiad yn hyrwyddo ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.

Diogelwch – Cynhaliwyd Asesiad Risg mewn cysylltiad â diogelwch ffordd i gerddwyr a cherbydau; gan gynnwys cau ffyrdd.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm fod yr Urdd wedi gwneud cais am stiwardiaid i gynorthwyo â'r digwyddiad, yn bennaf at ddibenion diogelwch.

Dywedodd fod y tîm Cysylltiadau Cyhoeddus yn gweithio'n agos gyda'r Urdd i sicrhau y bydd y digwyddiad yn llwyddiannus, fe fyddai stondinau ar y cae yn ystod y prynhawn i blant a phobl ifanc.

Unwaith y bydd y digwyddiad ym mis Hydref wedi bod, bydd y tîm yn canolbwyntio ar Eisteddfod 2020.

Dylid sefydlu is-bwyllgor ym mis Medi er mwyn dechrau cynllunio ar gyfer Maes yr Eisteddfod. Y flaenoriaeth oedd pabell neu adeilad ar gyfer y prif lwyfan.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm fod cynllun cyfathrebu eisoes ar waith, byddai gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu sefydlu i sicrhau llif cyson o wybodaeth i'r cyhoedd.

Trwyddedu

Cafodd yr Aelodau wybod fod Sir Ddinbych eisoes wedi cytuno gyda'r Urdd i gael un trwydded oedd yn cynnwys pob perfformiad ac ati.

Yn bennaf, Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yr Eisteddfod fyddai hyrwyddo'r digwyddiad, hyrwyddo Sir Ddinbych ei hun; pethau i wneud, lleoedd i aros, cynlluniau cludiant ac ati.
Maes arall a fyddai'n cael sylw fyddai delwedd Sir Ddinbych, bydd hyn yn cynnwys plannu blodau ar gylchfannau, addurno'r strydoedd a sicrhau fod Sir Ddinbych yn cael ei chyflwyno mewn modd da.

Dywedodd y Rheolwr Tîm y bydd diweddariad misol yn cael ei ddarparu i Aelodau o fis Medi ymlaen er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a rhag ofn eu bod eisiau cymryd rhan. Bydd Sir Ddinbych yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst hefyd.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn ag apelio am wirfoddolwyr, dywedodd y Rheolwr Tîm eu bod wedi cysylltu â chlybiau rygbi, clybiau pêl-droed, y wasg, cymunedau ac ati ac roedd yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol.
O ran addurno, fe eglurodd y byddent yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau priffyrdd a'r amgylchedd i sicrhau fod Sir Ddinbych cyfan yn cael ei addurno ar gyfer y digwyddiad.

Fe atgoffwyd yr Aelodau fod y digwyddiad yn cael ei drefnu a'i redeg gan yr Urdd. Rôl yr awdurdod lleol oedd hyrwyddo a marchnata'r digwyddiad, roedd yr ALl hefyd yn gyfrifol am drwyddedau, rheoliadau, safonau diogelwch y stondinau, diogelwch o ran cyrraedd a gadael y Maes ac ati.

***PENDERFYNWYD:* - derbyn a nodi'r cyflwyniad am Eisteddfod yr Urdd.**

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (ATCRhY) gyflwyniad am yr Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Sir Ddinbych bob blwyddyn er mwyn i Gomisiynydd y Gymraeg eu darllen ac os bydd ganddo unrhyw bryderon, bydd yn trefnu cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn adolygu prosesau a datblygiadau o fewn y Cyngor.

Un o ddigwyddiadau llwyddiannus y tîm oedd Eisteddfod y Cyngor, gyda staff o adrannau gwahanol yn cymryd rhan. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal Eisteddfod y Cyngor bob dwy flynedd, ond yn sgil ei lwyddiant a'r galw, bydd yn cael ei gynnal bob blwyddyn.

Fe soniodd y Rheolwr Tîm am rai o'r prosiectau parhaus sydd ar waith. Yn ddiweddar, roeddynt wedi darparu hyfforddiant i aelodau staff oedd yn gallu siarad Cymraeg ond yn ddim yn teimlo'n gyfforddus yn ysgrifennu Cymraeg, rhoddodd y cwrs hyder i staff a bu'n llwyddiant.

Dywedodd Swyddog y Gymraeg fod 22 aelod o staff wedi cofrestru i ddechrau gwersi Cymraeg ym mis Medi. Roedd staff yn cefnogi gweithgareddau megis clybiau cerdded a sesiynau paned a sgwrs. Serch hynny, fe ddywedodd ei bod hi'n cael problemau trefnu gweithgareddau i bob lefel, ond roedd y gweithgareddau presennol yn addas i'r aelodau staff.

Fe soniodd y Rheolwr Tîm am un peth penodol roedd yr Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg wedi'i godi, ac roedd yn rhywbeth mae Sir Conwy eisoes wedi'i gyflwyno. Roedd modd actifadu gosodiad ar e-byst i alluogi dysgwyr i ddewis opsiynau megis Siaradwr Cymraeg, Dysgwr ac ati. Fe eglurodd fod yna nifer o newidiadau technolegol y gellir ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cafodd yr aelodau wybod fod yn rhaid nodi unrhyw gwynion am y Gymraeg yn yr adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg. Dim ond 2 gŵyn swyddogol oedd yn yr

adroddiad blaenorol, sef enw SC2 a'r ail oedd poster 'ddim yn gweithio' dros dro ar beiriant parcio.

Fe ddywedodd pan fo cwynion yn cael eu derbyn, mae'r tîm yn eu datrys ac yn cynllunio er mwyn sicrhau na dderbynnir rhagor o gwynion.

Meysydd eraill i gael sylw oedd;

- Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Ganolfan Alwadau
- Nifer yr aelodau staff sy'n cael gwersi Cymraeg
- Cynllun Strategol Addysg Gymraeg

Dywedodd y Rheolwr Tîm eu bod yn derbyn adroddiad blynyddol am gynnydd y staff sy'n mynychu gwersi Cymraeg. Trwy'r adroddiad byddent yn adolygu a ydi'r cwrs yn briodol i'r aelod o staff neu a fyddent yn elwa mwy ar gwrs arall.

Wrth ddod â'i gyflwyniad i ben cyn i'r aelodau gael cyfle i ddweud eu dweud, dywedodd y dylid cyhoeddi'r adroddiad, os oedd yr aelodau'n hapus ag o.

Mynegodd y Cynghorydd Emrys Wynne bryder ynghylch arwyddion ffordd. Fe eglurodd fod yna broblem gyda chwmnïau allanol yn defnyddio arwyddion ffordd dwyieithog. Roedd yn cydnabod nad oedd hyn yn broblem enfawr, ond roedd cwynion yn cael eu mynegi o'u herwydd.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm eu bod yn cysylltu â'r adran berthnasol pan maent yn cael gwybod am broblem ac yn gofyn iddynt gael gwared ar yr arwyddion. Mae'r tîm wrthi'n rhoi system ar waith i sicrhau fod pob arwydd sydd wedi'i gyfieithu'n cael ei anfon atynt i'w wirio. Fe ychwanegodd fod yn rhaid i gontractwyr trydydd parti ddilyn Safonau Cymraeg yr Awdurdod.

Dywedodd fod yna ychydig o broblemau'n fewnol hefyd, wrth i staff greu eu harwyddion papur eu hunain heb ddilyn Safonau'r Gymraeg. Ar y cyfan serch hynny, roedd Sir Ddinbych yn dda iawn. Roedd y Rheolwr Tîm yn cydnabod efallai fod staff wedi gweithio mewn Awdurdodau Lleol eraill yn y gorffennol heb fod yn ymwybodol o Safonau Cymraeg Sir Ddinbych, felly yn sgil hyn, roeddynt wedi awgrymu fod Safonau'r Gymraeg yn rhan o'r broses gynefino, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol ohonynt o'r dechrau.

Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn â staff cymorth mewn ysgolion, eglurodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc ei fod eisoes wedi adolygu hyn. Roedd y Sir a'r athrawon wedi penderfynu lledaenu'r gyllideb rhwng yr ysgolion i sicrhau fod rhywun â'r wybodaeth berthnasol yn yr ysgol bob dydd. Dywedodd wrth yr Aelodau mai Sir Ddinbych oedd â'r safonau Cymraeg uchaf mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, felly roedd yn teimlo fod yr ystadegau'n adlewyrchu pa mor dda roedd y broses bresennol yn gweithio.

Gofynnodd y Cynghorydd Ann Davies gwestiwn ynglŷn â myfyrwyr Lefel A. Gofynnodd sut y gellir annog myfyrwyr i aros mewn ysgolion Cymraeg i astudio eu pynciau Lefel A.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod dosbarthiadau Chweched Dosbarth Cymraeg yn fach o ran niferoedd, gan olygu fod ysgolion yn cydweithio i agor eu cyrsiau i fyfyrwyr o ysgolion eraill. Yn anffodus, dywedodd fod cludiant bellach yn broblem a fod hynny'n peri problem i fyfyrwyr chweched dosbarth yn cyrraedd a gadael eu gwersi.

Awgrymodd y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies fod y problemau o ran arwyddion a safonau'r Gymraeg yn dychwelyd i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu, gan ei fod yn teimlo na fu newid ers y tro diwethaf i'r mater gael ei godi. I gloi, fe ganmolodd 'Denbighshire Today' a'r rhannau yn Gymraeg.

Gofynnodd y cadeirydd i'w gyd-aelodau a oeddynt yn credu fod pethau'n gwella, ddim yn newid neu'n gwaethygu o ran y Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod pethau wedi gwella. Aeth ymlaen i ddweud fod pobl yn fwy ymwybodol yn sgil Safonau'r Gymraeg, ac felly roedd negeseuon ffôn bellach yn ddwyieithog, roedd staff y rheng flaen yn siarad Cymraeg. Serch hynny, roedd yn cydnabod nad oedd modd i'r awdurod ddarparu popeth, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn fodlon dilyn y safonau.

Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylai Safonau'r Gymraeg gael eu monitro yn rhan o adolygiad cyfnod prawf 6 mis yr aelod staff.

Roedd y Cynghorydd Ann Davies yn teimlo na fu gwelliannau a bod angen gwneud mwy.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod ei bod yn eithriadol o anodd monitro Safonau'r Gymraeg yn enwedig gyda phwysau gwaith ac ati.

PENDERFYNWYD: **bod yr Aelodau yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad.**

7 PAPUR BRIFFIO AR SEFYDLIADAU PARTNER

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm adroddiad am sefydliadau partner. Fe eglurodd mai sefydliad oedd 'Partner Iaith' oedd yn cydweithio fel un corff ar gyfer y Gymraeg. Roedd tudalen 2 yr adroddiad yn egluro rôl eu gwaith.

Fel partner iaith, maent eisiau adolygu'r gweithgareddau yn Gymraeg a gweld beth arall y gellir ei ychwanegu, ac adolygu'r meysydd sydd ddim yn cael digon o sylw ac ati.

PENDERFYNWYD: **bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.**

8 FERSIWN DDRAFFT POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD

Cyflwynodd y Gweinyddwr Perfformiad a Systemau Rhaglenni yr adroddiad am Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd.

Y rheswm roedd yr adroddiad wedi dod gerbron Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg oedd mater oedd yn ymwneud â chyfieithiad o'r polisi. Fe ysgrifennwyd y polisi drafft yn

Saesneg heb unrhyw ystyriaeth y byddai'r ramadeg yn newid ar ôl iddo gael ei gyfieithu; felly gofynnwyd i'r grŵp adolygu'r ddogfen o safbwynt y Gymraeg cyn iddi ddychwelyd i'r pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd.

Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn ag enwi strydoedd, dywedodd y Gweinyddwr fod y polisi presennol sef Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 yn nodi, pan fo stryd yn cael ei henwi, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg, mai dyna fyddai'r teitl cyfreithiol swyddogol.
Fe eglurodd nad ydynt yn annog yr arfer o newid enwau cyfreithiol gan y byddai'n achosi problemau i breswylwyr a'r Gwasanaethau Brys. Yr unig adeg y byddai enw'n cael ei newid yn gyfreithiol fyddai petai'r gwasanaeth brys yn cael trafferth dod o hyd i'r cyfeiriad.

Dywedodd y Gweinyddwr y dylai preswylwyr gynnig unrhyw newidiadau. Bu cais diweddar gan breswylydd yn llwyddiannus; roedd enwau ar dai ar stryd yn Nyserth yn hytrach na rhifau. Roedd hyn wedi achosi problemau i'r gwasanaeth ambiwlans. Lluniodd y preswylwyr ddeiseb gan olygu fod y newid wedi cael ei gymeradwyo, ac ers y newid ni fu unrhyw broblemau.
Mynegodd y Cynghorydd Emrys Wynne ei bryder y byddai enwau pwysig yn cael eu colli trwy'r broses bresennol. Dywedodd os oes yna gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yna dylid gwneud hynny heb unrhyw rwystrau.

Cytunodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts nad oedd modd cyfieithu Saesneg mewn rhai achosion. Cynigiodd fod y polisi'n cael ei adolygu eto. Gofynnodd pam fod angen enwau dwyieithog yng Nghymru lle nad yw hynny'n digwydd mewn gwledydd eraill. Cynigiodd fod y polisi'n cael ei adolygu a lle y bo'n bosibl, fod enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio. Roedd yn teimlo fod technoleg, codau post, GPS ac ati sydd ar gael heddiw yn golygu y dylai fod yn hawdd lleoli unrhyw gyfeiriad, boed yn enw Cymraeg neu Saesneg.

Eiliodd y Cynghorydd Arwel Roberts gynnig y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Roedd y Cynghorydd Graham Timms yn cytuno hefyd. Roedd yn teimlo y dylai unrhyw ystadau, ffyrdd newydd ac ati gael enw Cymraeg. Roedd yn cytuno y dylid edrych eto ar y polisi a'i rannu i ymgynghori arno.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (CDC) wrth yr aelodau nad oes modd i'r Pwyllgor wneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol, serch hynny gallai wneud argymhelliad yn seiliedig ar drafodaethau a dadleuon y pwyllgor y dylid adolygu'r polisi ymhellach i awgrymu fod pob tŷ, stryd newydd ac ati yn cael enw Cymraeg.

Byddai'r polisi yn dychwelyd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd, ac yna'r Cabinet. Y penderfyniad fyddai i symud ymlaen â'r ystyriaethau ac argymhellion o Bwyllgor Llywio'r Gymraeg a Phwyllgor Craffu neu beidio.

Tynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies sylw at y ffaith y gallai rhai enwau strydoedd fod yn anghywir mewn cronfeydd data gan fod pobl yn tueddu i ddefnyddio'r enw anghywir fel arferiad. Fe awgrymodd fod y pwyllgor yn adolygu'r polisi cyfan yn drylwyr.

PENDERFYNWYD: bod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn argymell adolygiad o Bolisi Enwi Strydoedd Cymraeg.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor i'w ystyried, a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:

- Partner Iaith – Gwaith Mapio
- Comisiynydd Cymraeg i fynychu'r cyfarfod nesaf

***PENDERFYNWYD:* - yn ddibynnol ar yr uchod, derbyn a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.06pm.